

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

Hysbysiad o Newidiadau Materion yn Codi i'r Cynllun Datblygu Lleol

Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026

Mae'n ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg baratoi Cynllun Datblygu Lleol (Call) yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Bydd y CDLI hwn, ar ôl cael ei fabwysiadu, yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol presennol a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ym Mro Morgannwg. Mae CDLI Bro Morgannwg yn destun Archwiliad ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor yn ymgynghori ar nifer o newidiadau arfaethedig sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i faterion yn codi yn ystod gwrandawriadau'r Archwiliad. Bydd y cyfnod ymgynghori yn para o **Ddydd Gwener 16 Medi tan hanner nos Ddydd Gwener 28 Hydref 2016**.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud ag elfennau o ddatganiad ysgrifenedig y CDLI a'r map argymhellion ac wedi eu nodi yn yr Atodlen Newidiadau Materion yn Codi (NMC). Gellir gweld copïau o'r Atodlen NMC, ynghyd â dogfennau'r Arfarniad Cynaliadwyedd NMC (AS) (yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) NMC ar wefan y Cyngor - www.valeofglamorgan.gov.uk/ldp Mae copïau caled hefyd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn y lleoliadau canlynol:

- Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, y Barri, CF63 4RU
- Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, y Barri, CF63 4RT
- Cyngor Bro Morgannwg, Alps Depot, Quarry Road, Y Wenfô, CF5 6AA
- Pob llyfrgell ym Mro Morgannwg

Dylid anfon sylwadau ynghylch yr Atodlen NMC, NMC AS a NMC ARhC yn ysgrifenedig at (yn ddelfrydol ar ffurflen cyflwyno sylwadau) **y Tîm CDLI, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, y Barri, CF63 4RT**. Mae'r ffurflen i gyflwyno sylwadau i'w chael o'r lleoliadau uchod neu ar-lein www.valeofglamorgan.gov.uk/ldp. Gellir anfon ffurflenni sylwadau wedi eu cwblhau un ai at y Tîm CDLI yn y cyfeiriad uchod neu drwy e-bost i ldp@valeofglamorgan.gov.uk.

Ar y pwynt hwn dim ond sylwadau yn ymwneud â'r Newidiadau i Faterion yn Codi y dylid eu gwneud. Nid yw'r ymgynghoriad yn gyfle i ychwanegu at sylwadau blaenorol nac i gyflwyno sylwadau newydd ar rannau o'r Cynllun nad ydynt yn wynebu newid. Caiff unrhyw sylwadau o'r math hwnnw eu diystyru oherwydd y dylid fod wedi eu gwneud yn ystod cyfnodau cynharach o baratoi'r Cynllun. Caiff sylwadau priodol eu hystyried gan yr Arolygydd a benodwyd i archwilio cadernid y cynllun. Nodwch y bydd yr holl ymatebion ar gael i'r cyhoedd eu gweld ac ni ellir eu trin yn gyfrinachol.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r Archwiliad, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen Sarah Knevet ar 01446 704610 neu e-bostiwch programmeofficer@valeofglamorgan.gov.uk

Gellir cael mwy o wybodaeth ar yr ymgynghoriad Newidiadau Materion yn Codi ar wefan y Cyngor www.valeofglamorgan.gov.uk/ldp neu drwy gysylltu â'r tîm CDLI drwy e-bost: ldp@valeofglamorgan.gov.uk neu drwy ffonio: 01446 704665/704663.